Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

Adroddiad Arolygu ar gyfer Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Care Fertility Cardiff

Dyddiad yr arolygiad: 22 Awst 2026

Dyddiad cyhoeddi: 23 Tachwedd 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr gan fod ieithoedd a fformatau amgen yn cael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copi o bob adroddiad, pan gaiff ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu:

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80853-736-3

© Hawlfraint y Goron 2026



Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw rheoleiddiwr ac arolygiaeth annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein Diben

Rydym yn gwirio diogelwch ac ansawdd gofal iechyd ledled Cymru.

Ein Gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Rydym yn:

Annibynnol – rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud.

Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth.

Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws.

Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith.

Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae ei angen fwyaf.

Ein Gweledigaeth

Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol ac o ansawdd uchel i bawb.

Ein Blaenoriaethau

Rhoi Pobl yn Gyntaf – Byddwn yn canolbwyntio ar y risgiau mwyaf y mae pobl a chymunedau yn eu hwynebu wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd nawr ac yn y dyfodol.

Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd – Byddwn yn cydweithio â phartneriaid er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac ysgogi gwelliannau parhaus.

Buddsoddi yn Ein Pobl – Byddwn yn sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u grymuso.

Cymryd Camau sydd o Bwys – Byddwn yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd ar gyfer dyfodol Cymru.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom 5

2. Crynodeb o'r arolygiad 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym 12

   Ansawdd Profiad y Claf 12

   Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol 18

   Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth 28

4. Y camau nesaf 36

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad 37

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith 38

Atodiad C – Cynllun gwella 39



1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Care Fertility Cardiff ar 21 Awst 2026.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid clinigol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o saith holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd chwech gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gawsom yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Yr Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol (HFEA) sy'n rheoleiddio clinigau ffrwythlondeb a phrosiectau sy'n ymwneud ag ymchwilio i embryonau dynol ledled y DU. Mae gwaith yr Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol yn wahanol i waith AGIC ac mae'n ymwneud â thrwyddedu, arolygiadau a gosod safonau. Gellir dod o hyd i wybodaeth am yr hyn y mae'r Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol yn ei wneud, gan gynnwys y ffordd y mae'n rheoleiddio, a sut i gael gafael ar ei adroddiadau arolygu ar wefan HFEA.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Ar y cyfan, roedd y gwasanaeth yn darparu gofal diogel, tosturiol ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Roedd cleifion y clinig yn cael profiadau cadarnhaol, a gefnogir gan systemau cadarn, gofal tosturiol ac ymrwymiad clir i welliant parhaus. Roedd yr adborth a gafwyd gan y cleifion yn hynod gadarnhaol, a nododd y saith ymatebydd i holiadur AGIC fod y gwasanaeth yn dda iawn. Roedd y cleifion wedi canmol y staff yn gyson am eu proffesiynoldeb, eu caredigrwydd, eu tosturi a'r lefel uchel o gymorth a ddarperir drwy gydol eu triniaeth.

Roedd y clinig yn hybu iechyd a llesiant drwy ddarparu amrywiaeth o wybodaeth ac adnoddau addysgol mewn perthynas â ffrwythlondeb. Roedd canllawiau ar gael i'r cleifion ar gyflyrau ffrwythlondeb, opsiynau triniaeth, dewisiadau ynghylch ffyrdd iach o fyw a gwasanaethau cymorth. Roedd adnoddau ychwanegol, fel cyngor ar roi'r gorau i smygu a rhaglenni cymorth maeth, ar gael i helpu'r cleifion i wella eu hiechyd cyn cael triniaeth.

Roedd y staff yn trin y cleifion mewn ffordd gwrtais a phroffesiynol, roedd yr ystafelloedd ymgynghori yn diogelu cyfrinachedd ac roedd proses glir ar gyfer hebryngwyr ar waith. Dywedodd y cleifion fod y staff yn gwrando arnynt, yn eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal ac yn esbonio triniaethau'n glir.

Roedd y trefniadau cydsynio yn sicrhau bod y cleifion yn cael digon o wybodaeth i wneud dewisiadau gwybodus. Roedd y cleifion yn deall manteision, risgiau a goblygiadau triniaethau ac roedd y prosesau cydsynio wedi'u dogfennu'n briodol a'u cefnogi gan bolisïau clir.

Roedd y trefniadau cyfathrebu yn effeithiol ac yn hygyrch. Roedd gwybodaeth ar gael mewn fformatau amrywiol, gan gynnwys gwasanaethau cyfieithu i gleifion nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf. Roedd y cleifion yn cael eu cefnogi drwy ap gofal ffrwythlondeb digidol ac roedd gwybodaeth glir ar gael iddynt am driniaethau, costau, ôl-ofal a gweithdrefnau cwyno.

Roedd y prosesau cynllunio gofal yn drefnus ac yn sicrhau bod y cleifion yn cael gofal amserol wedi'i bersonoli gan staff â chymwysterau priodol. Roedd cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wedi'u gwreiddio ym mhob rhan o'r gwasanaeth, gyda thystiolaeth o lwybrau gofal cynhwysol, addasiadau rhesymol a chymorth ar gyfer grwpiau cleifion amrywiol.

Roedd y clinig hefyd yn dangos ymrwymiad cryf i ymgysylltu a gwella'r gwasanaeth drwy arolygon cleifion, systemau adborth ac enghreifftiau gweladwy o'r camau a gymerwyd mewn ymateb i farn y cleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Adborth cleifion, gyda phawb a atebodd yr holiadur wedi nodi bod y gwasanaeth yn dda iawn ac wedi rhoi sylwadau llawn canmoliaeth am y staff a'r gofal.
- Parch at urddas, preifatrwydd a chyfranogiad cleifion, a gefnogir gan drefniadau effeithiol ar gyfer hebryngwyr ac adborth cadarnhaol gan y cleifion.
- Prosesau cydsynio a chyfathrebu, sy'n sicrhau bod y cleifion yn cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniadau gwybodus am eu triniaeth
- Ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a gwelliant parhaus, a ddangosir drwy wasanaethau cynhwysol, addasiadau rhesymol a defnydd gweithredol o adborth gan gleifion i wella profiadau'r cleifion.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y clinig yn darparu gofal ffrwythlondeb diogel ac effeithiol o ansawdd uchel mewn amgylchedd glân a diogel sy'n cael ei gadw mewn cyflwr da. Roedd y safle yn eithriadol o lân a thaclus heb unrhyw beryglon, ac roedd mesurau diogelwch priodol ar waith i reoli mynediad at ardaloedd clinigol, labordai ac ardaloedd storio sensitif. Roedd systemau cynhwysfawr yn cefnogi gweithdrefnau rheoli diogelwch ac iechyd, gan gynnwys gwaith cynnal a chadw rheolaidd, profion trydanol, asesiadau risg a threfniadau diogelwch tân cadarn. Roedd parodrwydd y clinig ar gyfer argyfwng yn cael ei gefnogi gan weithdrefnau uwchgyfeirio, cynllun parhad busnes a staff a oedd wedi cael hyfforddiant ar ymateb i argyfwng a chynnal bywyd brys.

Roedd trefniadau atal a rheoli heintiau cadarn i'w gweld ym mhob rhan o'r gwasanaeth. Roedd y strwythurau llywodraethu'n cynnwys arweinwyr rheoli heintiau dynodedig, archwiliadau rheolaidd, systemau adrodd ar ddigwyddiadau a mynediad at gyngor microbioleg arbenigol. Roedd yr ardaloedd clinigol yn lân ac mewn cyflwr da, roedd amserlenni glanhau'n cael eu monitro ac roedd trefniadau priodol ar waith i waredu gwastraff, rheoli offer miniog a hyfforddi'r staff. Dangosodd yr adborth a gafwyd gan y cleifion a'r staff fod ganddynt hyder yng nglendid yr amgylchedd ac effeithiolrwydd mesurau rheoli heintiau.

Roedd y prosesau rheoli meddyginiaethau yn gynhwysfawr ac yn helpu i bresgripsiynu, storio, rhoi a gwaredu meddyginiaethau'n ddiogel. Roedd y trefniadau diogelu ar gyfer plant ac oedolion sy'n agored i niwed yn gadarn, gyda pholisïau cyfredol, staff hyfforddedig, a llwybrau adrodd sefydledig. Roedd cyfarpar priodol ar gael ac yn cael ei gynnal a'i gadw drwy raglenni gwasanaethu a chalibradu.

Roedd y clinig yn darparu gofal diogel a chlinigol effeithiol yn unol â gofynion yr Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol. Roedd y cleifion yn cael gwybodaeth fanwl am driniaethau, risgiau, cydsyniad, costau a threfniadau storio, a oedd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus. Roedd y prosesau llywodraethu clinigol yn sicrhau bod canllawiau, rhybuddion diogelwch, archwiliadau a chymwyseddau'r staff yn cael eu hadolygu a'u monitro'n rheolaidd.

Roedd gweithgareddau gwella ansawdd ar waith ym mhob rhan o'r sefydliad, wedi'u cefnogi gan archwiliadau, trefniadau rheoli digwyddiadau, adborth gan gleifion a chyfarfodydd llywodraethu. Roedd mentrau fel llwybrau cleifion wedi'u personoli a

rhaglenni llesiant yn dangos ymrwymiad i welliant parhaus. Roedd y trefniadau llywodraethu gwybodaeth yn gadarn, gyda systemau cofnodion electronig diogel, mesurau diogelu data cryf a chofnodion cleifion o ansawdd uchel a oedd yn glir, yn gywir, yn gynhwysfawr ac yn cael eu cadw'n briodol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cynnal a chadw amgylchedd eithriadol o lân a diogel, gyda threfniadau iechyd a diogelwch, diogelwch tân, a chynnal a chadw effeithiol
- Arferion da i atal a rheoli heintiau
- Gofal ffrwythlondeb diogel ac effeithiol, gyda gwybodaeth gynhwysfawr am gleifion, prosesau i sicrhau cydsyniad ar sail gwybodaeth a chydymffurfiaeth â gofynion yr Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol
- Gwella ansawdd yn barhaus, gan ddefnyddio archwiliadau, systemau adrodd ar ddigwyddiadau, adborth gan gleifion, cyfarfodydd llywodraethu a mentrau arloesol i wella profiadau a chanlyniadau'r cleifion.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd gan y gwasanaeth drefniadau rheoli ac arwain effeithiol, a gefnogir gan systemau llywodraethu, strwythurau atebolrwydd clir a phrosesau gwneud penderfyniadau sefydledig. Roedd y clinig yn gweithredu yn unol â'i ddatganiad o ddiben ac roedd ganddo bolisïau, gweithdrefnau a gwybodaeth gyfredol am gleifion. Roedd adnoddau llywodraethu, deunyddiau hyfforddi a chanllawiau ar gael i'r staff ar fewnrwyd y sefydliad ac roedd systemau ar waith i sicrhau bod gwybodaeth bwysig am ddiogelwch a diweddariadau rheoleiddiol yn cael eu rhannu'n effeithiol.

Roedd yr adborth a gafwyd gan y staff yn gadarnhaol i raddau helaeth. Disgrifiodd y staff amgylchedd gwaith cefnogol a chydweithredol gyda gwaith tîm da rhwng adrannau a ffocws clir ar ofal sy'n canolbwyntio ar y claf. Dywedodd yr ymatebwyr fod eu rheolwyr uniongyrchol yn hawdd mynd atynt, yn rhoi adborth clir ac yn cynnwys y staff mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu gwaith. Ystyriwyd yn gyffredinol bod yr uwch-reolwyr yn weladwy ac yn ymrwymedig i ofal cleifion. Tynnodd y staff sylw hefyd at y gwelliannau sylweddol a wnaed yn y clinig dros y chwe mis diwethaf sydd, yn eu barn nhw, wedi cael effaith gadarnhaol ar foddhad a diogelwch y cleifion.

Roedd gan y gwasanaeth drefniadau effeithiol ar gyfer rheoli cwynion, digwyddiadau ac adborth gan gleifion. Roedd y gwasanaeth yn ymchwilio i gwynion yn unol â gweithdrefnau sefydledig, yn eu dadansoddi i ganfod tueddiadau ac yn eu defnyddio i nodi gwelliannau y gellid eu gwneud i'r gwasanaeth, yn enwedig o ran cyfathrebu a rheoli disgwyliadau cleifion. Roedd gwersi a ddysgwyd o adborth a digwyddiadau yn cael eu rhannu â phob rhan o'r sefydliad i gefnogi gwelliant parhaus.

Roedd prosesau recriwtio a rheoli'r gweithlu wedi hen sefydlu, gyda gwiriadau cyn cyflogi priodol, systemau i fonitro cofrestriadau proffesiynol yn rheolaidd a threfniadau sefydlu cynhwysfawr. Roedd ystod eang o gyfleoedd dysgu a datblygu a chymorth llesiant ar gael i'r staff, gan gynnwys hyfforddiant gorfodol, cymwysterau arbenigol a rhaglen cymorth i gyflogeion. Roedd lefelau cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol yn rhagorol ac roedd y staff yn cael eu hannog i ddatblygu eu sgiliau a'u gyrfaoedd.

Er bod y staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n gyffredinol, nodwyd rhai pryderon am lefelau staffio, y cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a hyder yn ymatebion y sefydliad i bryderon am arferion clinigol anniogel. Roedd yr ymatebion a gafwyd i'r holiadur hefyd yn dangos amrywiaeth yng nghanfyddiadau'r staff am y defnydd a wneir o

adborth gan gleifion, y cymorth a ddarperir gan y sefydliad i ddatrys problemau ac arfarnu profiadau, gan awgrymu cyfleoedd i ymgysylltu a rhoi sicrwydd pellach.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mynd i'r afael â phryderon y staff am lefelau staffio, y cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, ymgysylltiad staff, diwylliant y sefydliad a hyder i godi ac uwchgyfeirio pryderon am arferion anniogel.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Trefniadau llywodraethu, arwain ac atebolrwydd cryf gyda strwythurau adrodd clir a goruchwyliaeth effeithiol
- Gwaith tîm da, rheolwyr cefnogol ac ymrwymiad cryf i ofal sy'n canolbwyntio ar y claf
- Prosesau cwyno, rheoli digwyddiadau a dysgu sefydliadol effeithiol sy'n ysgogi gwelliannau i wasanaethau
- Trefniadau recriwtio, datblygu'r gweithlu a hyfforddi cadarnhaol, gan gynnwys cydymffurfiaeth dda â gofynion hyfforddiant gorfodol.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Cynhaliodd AGIC holiadur ar-lein er mwyn casglu barn y cleifion am y gofal a ddarperir yn y clinig ar gyfer yr arolygiad ym mis Awst 2026. Cafwyd cyfanswm o saith ymateb gan gleifion yn y clinig hwn. Cafwyd ymateb cadarnhaol gan y cleifion i bob cwestiwn yn ddieithriad yn yr holiadur. Roedd pob claf yn cytuno bod y gwasanaeth roeddent wedi'i gael yn 'dda iawn'. Nododd y cleifion:

> "Mawr yw fy niolch i bawb yn y clinig hwn. Roedd y cymorth a'r gofal a gefais yn eithriadol."
>
> "Mae'r staff, yn enwedig y nyrsys {tri enw wedi'u dyfynnu a'u golygu} yn ffantastig! Mor gefnogol ac yn glod [i'r gwasanaeth]."
>
> "Mae'r staff yn arbennig. Yn arbennig o ofalgar, cyfeillgar ac ystyriol."

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd y cleifion yn cael eu cefnogi i fyw bywydau iachach am fod y clinig yn hybu gwybodaeth am ffyrdd iach o fyw ac adnoddau addysgol sy'n gysylltiedig â ffrwythlondeb. Roedd gwybodaeth ar gael am gyflyrau fel Syndrom Ofarïau Polycystig (PCOS), gan gynnwys ei symptomau a'i effaith ar ffrwythlondeb. Gallai'r cleifion gael canllawiau ar atchwanegiadau ffrwythlondeb, gwasanaethau therapi cyflenwol, uwch-dechnegau gwahanu sberm, banc rhoddwyr BORN a gwybodaeth i'w helpu i ddeall eu taith ffrwythlondeb. Roedd deunyddiau hybu iechyd sy'n berthnasol i'r gwasanaethau a ddarperir ar gael ym mhob rhan o'r clinig. Roedd gwybodaeth ar gael ar wefan y clinig hefyd.

Roedd rhagor o wybodaeth wedi'i harddangos yn nerbynfa'r clinig am roi'r gorau i smygu a rhaglen cymorth maeth ac ymddygiad chwe wythnos i gleifion â BMI sy'n uwch na'r meini prawf cymhwystra ar gyfer triniaeth, gydag atgyfeiriadau'n cael eu gwneud gan y clinigwyr lle bo hynny'n briodol.

Urddas a pharch

Roedd triniaeth barchus, preifatrwydd ac urddas cleifion yn cael eu cefnogi'n dda.

Roedd y staff yn gwrtais ac yn broffesiynol ac roedd drysau'r ystafelloedd ymgynghori'n cael eu cadw ar gau, gan helpu i gynnal preifatrwydd a chyfrinachedd. Roedd yr holiadur adborth i gleifion yn cynnwys cwestiynau ynghylch a oedd y staff yn parchu preifatrwydd ac urddas y cleifion ac yn eu trin â charedigrwydd a pharch, a chafwyd ymatebion cadarnhaol.

Roedd gan y gwasanaeth bolisi hebryngwyr a oedd yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer ymgyngoriadau, archwiliadau a thriniaethau clinigol, yn enwedig triniaethau personol. Roedd gwybodaeth am hebryngwyr wedi'i harddangos yn glir a dywedodd y staff bod hebryngwr dynodedig wedi'i ddyrannu bob amser, gan sicrhau bod rhywun ar gael i gyflawni'r rôl hon pan fyddai angen.

Roedd pob un o'r ymatebwyr i'r holiadur i gleifion yn cytuno'n gryf bod y staff yn eu trin ag urddas a pharch ac yn diogelu eu preifatrwydd. Dywedodd y cleifion fod y staff yn esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud, yn eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal iechyd, yn gwrando arnynt ac yn ateb eu cwestiynau.

Yn yr holiadur i'r staff, roedd y staff yn cytuno bod preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael eu cynnal, bod y cleifion a'u perthnasau'n cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal, a'u bod yn fodlon ar ansawdd y gofal roeddent yn ei ddarparu i'r cleifion.

Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Roedd y trefniadau a ddisgrifiwyd yn rhoi sicrwydd bod y cleifion yn cael eu cefnogi i ddeall eu hopsiynau, gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth a rhoi cydsyniad dilys, gan ddangos proses gydsynio gref ac effeithiol. Roedd polisi cydsynio cyfredol ar waith a oedd wedi bod yn destun proses rheoli fersiynau, ac roedd yn rhoi canllawiau clir i'r staff ar gael cydsyniad dilys ar sail gwybodaeth a sicrhau bod triniaeth yn cael ei rhoi'n gyfreithlon. Roedd y polisi'n amlinellu prif egwyddorion cydsyniad ac yn tynnu sylw at y gofynion cyfreithiol ychwanegol o dan Ddeddf Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol 1990.

Roedd cydsyniad wedi'i ddogfennu'n briodol ac roedd gwybodaeth berthnasol am gydsyniad yn cael ei chynnig i'r cleifion i'w helpu i ddeall a gwneud penderfyniadau. Roedd trefniadau ar waith hefyd i rannu gwybodaeth berthnasol â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill sy'n ymwneud â gofal y cleifion, gan gynnwys meddygon teulu, lle roedd y cleifion wedi cydsynio i hynny.

Roedd pob un o'r cleifion yn cytuno'n gryf eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall opsiynau triniaeth a'u risgiau a'u manteision.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dangosodd y gwasanaeth fod ganddo drefniadau effeithiol ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael gwybodaeth glir, gywir ac amserol mewn fformat sy'n diwallu eu hanghenion unigol. Roedd gwybodaeth ar gael i gefnogi'r cleifion drwy gydol eu triniaeth, gan gynnwys manylion am opsiynau triniaeth, costau, gwasanaethau cwnsela, tawelyddu, atal ceuladau gwaed, gofal ar ôl triniaeth a sut i godi pryderon neu gwynion.

Roedd gan y clinig drefniadau ar waith i ddiwallu anghenion cyfathrebu cleifion amrywiol, gan gynnwys cleifion Cymraeg eu hiaith a'r rhai hynny y mae angen gwasanaethau cyfieithu arnynt. Dywedodd y staff fod y gwasanaeth wedi'i gofrestru â gwasanaeth cyfieithu a oedd yn golygu bod modd cael dogfennau wedi'u cyfieithu a chymorth gan gyfieithydd ar y pryd drwy ymgyngoriadau ar-lein neu wyneb yn wyneb. Roedd gwybodaeth am y gwasanaethau hyn wedi'i harddangos yn y dderbynfa. Gallai cleifion heb fynediad at ddyfeisiau digidol gael gwybodaeth ar ffurf copïau caled, neu drwy alwadau ffôn neu negeseuon e-bost, gan sicrhau bod modd cyfathrebu â phawb.

Roedd y cleifion yn cael eu hannog i roi adborth drwy amrywiaeth o ddulliau. Roedd gwybodaeth am weithdrefnau cwyno ar gael ar wefan y clinig, mewn polisïau a deunydd cyfathrebu â chleifion. Gellid darparu adborth hefyd drwy godau QR a holiadur profiad y claf a oedd ar gael drwy'r ap gofal ffrwythlondeb ar-lein a luniwyd er mwyn helpu'r cleifion i reoli eu taith drwy driniaeth a chyfathrebu'n ddiogel â'r clinig. Roedd adborth gan gleifion yn cael ei fonitro drwy systemau adborth ffurfiol a llwyfannau adolygu allanol. Roedd yr adborth yn amlygu safon uchel y gofal a ddarperir gan y staff ac yn nodi cyfleoedd i wella cyfathrebu a chysondeb ymhellach ar hyd taith y cleifion.

Dywedodd pob claf yn holiadur AGIC fod y costau wedi cael eu hesbonio cyn y driniaeth.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd prosesau effeithiol ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael y gofal cywir ar yr adeg gywir gan staff a oedd yn meddu ar gymwysterau priodol. Roedd y cleifion yn cael eu cefnogi drwy gydol eu triniaeth gan ddefnyddio'r ap gofal ffrwythlondeb, a oedd yn rhoi'r

diweddaraf am hynt y driniaeth a mynediad at wybodaeth berthnasol. Roedd cyfarfodydd cynllunio â nyrsys yn cael eu cynnal i ategu hyn, lle roedd llwybr y claf yn cael ei adolygu'n fanwl ac atgyfeiriadau at feddyg yn cael eu gwneud lle bo angen.

Roedd y cleifion yn cael eu gweld yn brydlon ar y cyfan, ac roedd apwyntiadau'n cael eu rheoli drwy system dyddiadur strwythuredig. Dywedodd y staff fod amseroedd aros cleifion yn anghyffredin ac y byddai'r cleifion yn cael gwybod pe byddai unrhyw oedi. Roedd cymorth ar gael cyn, yn ystod ac ar ôl triniaeth fel rhan o'r llwybr claf sefydledig. Un o ddangosyddion perfformiad allweddol y gwasanaeth oedd bod y cleifion yn symud o'r ymgynghoriad cychwynnol i gael triniaeth o fewn pedwar mis, gan helpu i sicrhau eu bod yn cael gofal amserol.

Roedd y cleifion yn cael cynlluniau gofal a thriniaeth wedi'u teilwra at yr unigolyn, ynghyd â gwybodaeth am eu gofal, meddyginiaethau presgripsiwn, gofynion cyn cael triniaeth a threfniadau ôl-ofal. Roedd prosesau ar waith hefyd i atgyfeirio cleifion at wasanaethau gofal iechyd eraill i gynnal ymchwiliadau neu driniaeth bellach lle bo angen, gyda chamau olrhain priodol yn cael eu cymryd.

Roedd pob claf yn yr holiadur yn cytuno'n gryf ei fod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal priodol ac arweiniad clir ynghylch heintiau neu bryderon brys.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd y gwasanaeth yn dangos ymrwymiad cryf i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, gan sicrhau bod hawliau dynol y cleifion yn cael eu parchu a'u diogelu. Disgrifiodd y staff weithlu amrywiol a gefnogir gan bolisïau, hyfforddiant a gwerthoedd sefydliadol sy'n hyrwyddo diwylliant cynhwysol. Roedd cydraddoldeb ac amrywiaeth wedi'u hymgorffori mewn gweithdrefnau ac roedd y staff yn cael eu cefnogi drwy hyfforddiant, systemau adborth a pholisi chwythu'r chwiban a oedd yn eu hannog i godi pryderon lle bo angen.

Roedd y cleifion yn cael eu diogelu rhag gwahaniaethu drwy lwybrau gofal cynhwysol a luniwyd i ddiwallu amrywiaeth o anghenion unigol. Roedd gan y gwasanaeth drefniadau penodol ar gyfer cyplau o'r un rhyw ac roedd yn darparu opsiynau gwarchod ffrwythlondeb ar gyfer cleifion trawsryweddol, gan gynnwys casglu sberm cyn trawsnewid rhywedd. Dywedodd y staff fod pob claf yn cael ei drin ag urddas a pharch, ni waeth beth fo'i gefndir neu nodweddion.

Gwelwyd sawl addasiad rhesymol er mwyn helpu i gynnig mynediad teg at wasanaethau. Roedd y rhain yn cynnwys mynediad gwastad drwy lifft, mynediad at wasanaethau cyfieithu a dehongli a ffurflenni i gleifion a oedd yn galluogi unigolion i nodi eu bod yn wryw, benyw neu'n anneuaidd. Gallai'r cleifion nodi eu henwau a'u rhagenwau dewisol hefyd, a oedd yn galluogi'r staff i ddarparu gofal parchus wedi'i bersonoli.

Roedd polisi amrywiaeth a chynhwysiant cyfredol ar gael a oedd wedi bod yn destun proses rheoli fersiynau. Roedd y polisi'n cadarnhau ymrwymiad y sefydliad i greu amgylchedd lle roedd pawb yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu, eu gwerthfawrogi ac y gallant fod yn nhw eu hunain. Dywedwyd bod amrywiaeth a chynhwysiant yn ganolog i werthoedd ac ymddygiadau'r sefydliad, a bod hyn yn cael ei gefnogi gan hyfforddiant ar gyfer y staff a rheolwyr. Roedd y cleifion yn gallu cael gafael ar wasanaethau'n deg heb unrhyw wahaniaethu.

Yn yr holiadur, dywedodd y cleifion nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaeth neu ei ddefnyddio ac roedd pob un ohonynt yn teimlo y gallent gael gafael ar y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir. Dywedodd pob aelod o'r staff yn yr holiadur eu bod yn cytuno bod ganddynt fynediad teg a chyfartal i gyfleoedd yn y gweithle a bod y gweithle yn cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Roedd y gwasanaeth yn gofyn am adborth gan y cleifion ac yn ei ddefnyddio i lywio gwelliannau i'r gwasanaeth. Roedd y gwasanaeth yn casglu adborth drwy arolygon cleifion a systemau ymgysylltu eraill, gan alluogi'r cleifion i rannu eu profiadau a dylanwadu ar ddatblygiadau yn y clinig. Roedd y canlyniadau o Arolwg Cleifion 2026 yn gadarnhaol iawn, gyda 39 allan o 40 o ymatebwyr yn rhoi adborth cadarnhaol ar ôl cael triniaeth a 53 allan o 56 o gleifion yn dweud y byddent yn argymell y gwasanaeth i eraill. Roedd sylwadau cadarnhaol y cleifion yn dangos ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir.

Mae'r clinig yn dangos ymrwymiad i weithredu ar adborth gan y cleifion. Roedd bwrdd "Dywedoch chi, Gwnaethom ni" wedi'i arddangos yn y dderbynfa, gan roi tystiolaeth weladwy i'r cleifion o'r ffordd roedd y gwasanaeth wedi ystyried eu barn a gweithredu arni. Roedd y gwelliannau a gyflwynwyd yn sgil adborth yn cynnwys peiriant coffi newydd a gwaith parhaus i wella'r dderbynfa, i'w gwneud yn fwy croesawgar a chyfforddus i'r cleifion.

Roedd y staff yn adolygu llwybr y claf hefyd i ddarparu profiad mwy personol, gan geisio gwella parhad a lleihau dyblygu drwy sicrhau bod cleifion yn cael eu cefnogi gan yr un aelodau o staff drwy gydol eu taith. Yn ogystal, roedd y clinig yn gweithio gyda choleg lleol i ddatblygu gwaith celf ar thema ffrwythlondeb i'w arddangos yn y gwasanaeth ac roedd yn bwriadu cynnal nosweithiau agored addysgol i fyfyrwyr a rhieni. Roedd y mentrau hyn yn dangos dull rhagweithiol o ymgysylltu â chleifion a gwella gwasanaethau'n barhaus.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Yr Amgylchedd

Roedd y safle'n ddiogel, yn lân ac mewn cyflwr da, ac roedd yn briodol i ddarparu gwasanaethau ffrwythlondeb. Roedd mynediad i'r adeilad yn cael ei reoli drwy gyfuniad o fesurau diogelwch ffisegol, gan gynnwys mynediad drwy fysellbad i labordai, ardaloedd theatr, stordai a lleoliadau eraill dan gyfyngiad. Roedd mynediad i'r lloriau uchaf yn cael ei reoli hefyd, er mwyn helpu i atal mynediad heb awdurdod i ardaloedd clinigol a storio sensitif.

Drwy gydol ein harolygiad, gwelsom fod y safle yn lân, yn drefnus ac nad oedd unrhyw beryglon amlwg fel annibendod neu risgiau baglu. Roedd yr ardaloedd clinigol ac anghlinigol, gan gynnwys dodrefn, gosodiadau a ffitiadau, yn edrych fel pe baent mewn cyflwr da ac yn addas at eu diben bwriadedig.

Roedd iechyd a diogelwch yn cael eu rheoli mewn ffordd strwythuredig drwy feddalwedd a oedd yn rheoli adnoddau a thasgau sy'n gysylltiedig â gwaith yn effeithiol. Defnyddiwyd y feddalwedd hon i fonitro cydymffurfiaeth, cofnodi arolygiadau, rheoli gweithgareddau cynnal a chadw, ac olrhain camau gweithredu a oedd heb eu cwblhau.

Roedd tystiolaeth ar gael i ddangos bod gofynion iechyd a diogelwch yn cael eu goruchwylio'n barhaus, gan gynnwys cynlluniau gweithredu a dogfennau diogelwch trydanol. Roedd profion offer cludadwy blynyddol wedi cael eu cwblhau ac roedd arolygiad bob pum mlynedd o osodiadau trydanol wedi cael ei gynnal. Roedd y dogfennau a welwyd yn rhoi sicrwydd bod systemau a chyfarpar trydanol yn cael eu monitro a'u cynnal a'u cadw'n briodol.

Roedd polisi rheoli gwaith cynnal a chadw lleol ar waith, a oedd yn nodi cyfrifoldebau am gadw'r safle, y cyfleusterau a'r cyfarpar mewn cyflwr diogel, effeithiol a dibynadwy. Roedd y polisi'n ymdrin â chynnal a chadw ataliol, gwasanaethu, calibradu, rheoli risg a bodloni gofynion rheoleiddio perthnasol.

Roedd y trefniadau diogelwch tân yn gynhwysfawr. Roedd asesiad risg tân cyfredol ar gael ac roedd y camau gweithredu a oedd wedi deillio o'r asesiad yn cael eu monitro. Roedd tystiolaeth i ddangos bod y materion a nodwyd wedi cael eu trin yn briodol, ac roedd dyddiadau cwblhau y cytunwyd arnynt wedi'u nodi ar gyfer y camau gweithredu a oedd yn weddill. Roedd rhagofalon diogelwch tân yn cael eu hadolygu bob blwyddyn ac roedd contract cynnal a chadw ar waith â darparwr allanol i wasanaethu'r systemau

diogelwch tân. Roedd y dogfennau ategol yn cynnwys tystysgrif ac adroddiad gwasanaethu ar gyfer y larymau tân.

Roedd tystiolaeth o wiriadau diogelwch tân rheolaidd, gan gynnwys profion wythnosol o'r larymau tân, arolygiadau o'r allanfeydd tân a'r drysau tân, ynghyd â gwiriadau misol o ddiffoddwyr tân a goleuadau argyfwng. Roedd ymarferion tân wedi cael eu cynnal, roedd y staff wedi cael hyfforddiant diogelwch tân ac roedd gweithdrefnau ar gyfer gadael yr adeilad mewn argyfwng, hysbysiadau yn nodi'r camau i'w cymryd pe bai tân ac arwyddion "Dim Smygu" wedi'u harddangos yn glir ym mhob rhan o'r safle. Roedd llwybrau dianc digonol a diffoddwyr tân a oedd wedi'u gwasanaethu'n briodol ar gael.

Dywedodd y cleifion a ymatebodd i'r holiadur fod yr adeilad yn hygyrch ac yn addas i unigolion sy'n defnyddio cadair olwyn.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd mesurau ar waith i reoli risgiau iechyd a diogelwch yn y clinig. Roedd trefniadau addas ar waith i ymateb i argyfyngau'n ymwneud â chleifion, ynghyd â pholisi uwchgyfeirio a chynllun parhad busnes. Roedd y cynllun yn amlinellu'r camau i'w cymryd pe bai mynediad i'r safle yn cael ei gyfyngu, gan gynnwys mynediad o bell i systemau, canslo apwyntiadau a chyfathrebu â chleifion. Yn ogystal, roedd yn amlinellu camau i sefydlu gwasanaeth argyfwng, a allai gynnwys trosglwyddo cleifion i gyfleusterau eraill Care. Roedd manylion cyswllt cwmnïau cyfleustodau a gwasanaethau allweddol eraill ar gael yn hawdd.

Dangosodd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw ymwybyddiaeth o'u rolau a'u cyfrifoldebau yn ystod argyfyngau, gan gynnwys digwyddiadau tân ac argyfyngau meddygol. Roedd pecyn cymorth cyntaf ar gael yn y swyddfa nyrsio ac roedd yn addas i'w ddefnyddio. Yn ogystal, roedd pob un o'r nyrsys a'r meddygon wedi cwblhau hyfforddiant cynnal bywyd brys, gan sicrhau bod staff hyfforddedig addas ar gael i ymateb i argyfyngau.

Roedd trefniadau iechyd a diogelwch yn cael eu cefnogi gan system rheoli iechyd a diogelwch gynhwysfawr. Roedd y polisi iechyd a diogelwch yn nodi ymrwymiad y clinig i reoli risgiau sy'n gysylltiedig â'r safle a gweithgareddau, monitro perfformiad a sicrhau gwelliant parhaus. Roedd gweithdrefnau penodol ar waith ar gyfer digwyddiadau fel anafiadau a achosir gan nodwydd ac offer miniog, ac roedd canllawiau a siartiau llif clir ar gael i'r staff.

Gwelwyd asesiad iechyd a diogelwch ac roedd yn gyflawn ac yn gyfredol. Hysbyswyd y staff fod asesiadau risg ar gael ar y fewnrwyd ac roedd disgwyl iddynt ddarllen y rhai a oedd yn berthnasol i'w rolau.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd trefniadau cynhwysfawr ar waith yn y gwasanaeth i ddiogelu'r cleifion rhag heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd a hyrwyddo arferion atal a rheoli heintiau effeithiol. Roedd strwythurau llywodraethu clir ar waith, a gefnogir gan bolisïau cyfredol, arweinwyr rheoli heintiau dynodedig a phrosesau monitro rheolaidd.

Roedd heintiau posibl neu heintiau a amheuir, ynghyd ag anafiadau a achosir gan offer miniog, yn cael eu cofnodi drwy system cofnodi digwyddiadau DATIX. Roedd y digwyddiadau hyn yn cael eu hadolygu gan y Pwyllgor Atal a Rheoli Heintiau, a oedd yn ystyried tueddiadau, yn nodi cyfleoedd dysgu ac yn gwneud argymhellion lle bo angen. Roedd y clinig yn llunio adroddiad blynyddol ar reoli heintiau a oedd yn amlinellu gweithgareddau atal a rheoli heintiau lleol, ac roedd yr adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor corfforaethol ac, yn y pen draw, i'r Cyfarwyddwyr Gweithredol. Roedd hyn yn darparu goruchwyliaeth sefydliadol a sicrwydd o ran trefniadau atal heintiau.

Roedd gan y clinig arweinydd atal a rheoli heintiau penodedig ac roedd amser yn cael ei neilltuo iddo gyflawni'r rôl. Roedd yr arweinwyr gwahanol yn cymryd rhan mewn rhwydweithiau proffesiynol ac yn cael eu cefnogi gan y Pwyllgor Atal a Rheoli Heintiau corfforaethol a oedd yn cynnwys arbenigwyr clinigol, labordy a microbioleg, gan gynnwys mynediad at Ficrobiolegydd Ymgynghorol a allai roi cyngor arbenigol pan fo angen.

Roedd archwiliadau rheoli heintiau rheolaidd yn rhan o'r prosesau sicrwydd. Roedd archwiliadau'n cael eu cynnal yn unol ag amserlen archwilio'r grŵp a byddent yn cael eu cynnal yn amlach pe bai angen, fel ar ôl gwaith adnewyddu neu pe bai angen gwella safonau. Canfu archwiliad atal a rheoli heintiau a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf 2026 fod y trefniadau'n effeithiol ar y cyfan ac ni nodwyd unrhyw achosion mawr o ddiffyg cydymffurfio. Lle nodwyd gwelliannau, roedd y rhain wedi'u cefnogi gan gynlluniau gweithredu a threfniadau dilynol i sicrhau bod ansawdd yn gwella'n barhaus. Ni nodwyd unrhyw bryderon cyfredol o ran atal heintiau ar adeg yr arolygiad.

Roedd yr amgylchedd clinigol yn lân yr olwg, yn daclus ac nid oedd unrhyw annibendod,

a oedd yn cefnogi arferion rheoli heintiau effeithiol. Roedd y gosodiadau, y ffitiadau a'r ardaloedd clinigol yn edrych fel pe baent mewn cyflwr da ac yn addas i'w glanhau a'u dihalogi. Roedd hylendid dwylo yn cael ei hyrwyddo ym mhob rhan o'r clinig drwy'r cyfleusterau golchi dwylo, hylifau diheintio dwylo ac arwyddion addysgol clir uwchlaw'r sinciau. Roedd y staff yn cwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau ar y lefel ofynnol ac roedd cyfarpar diogelu personol priodol ar gael iddynt, ynghyd â chanllawiau ar sut i'w ddefnyddio'n ddiogel.

Roedd amserlenni glanhau wedi'u dogfennu ar gael ac roedd tystiolaeth yn cadarnhau bod gweithgareddau glanhau rheolaidd yn cael eu cwblhau. Roedd gwasanaethau glanhau'n cael eu darparu'n allanol, ac yn cael eu cefnogi gan gofnodion monitro a glanhau.

Roedd trefniadau priodol ar waith hefyd ar gyfer rheoli gwastraff a gwaredu offer miniog yn ddiogel. Roedd polisi gwastraff clinigol yn amlinellu'r gofynion cyfreithiol a gweithredol ar gyfer trin gwastraff clinigol ac roedd gan y clinig gontract â darparwr gwasanaethau rheoli gwastraff awdurdodedig. Roedd gwastraff clinigol, offer miniog a deunyddiau peryglus eraill yn cael eu storio'n ddiogel cyn iddynt gael eu casglu a'u gwaredu drwy brosesau cymeradwy. Roedd polisi offer miniog dynodedig yn rhoi canllawiau clir i'r staff ar y camau gofynnol i'w cymryd yn dilyn anaf a achosir gan nodwydd neu offer miniog, gan gynnwys siart lif ar gyfer ymateb brys.

Cytunodd pob un o'r cleifion yn yr holiadur fod y lleoliad yn lân iawn a bod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn yn eu barn nhw. Cytunodd pob aelod o'r staff yn yr holiadur fod polisi rheoli heintiau effeithiol ar waith yn eu sefydliad, bod amserlen lanhau effeithiol ar waith a bod cyfarpar diogelu personol priodol yn cael ei ddarparu a'i ddefnyddio. Roeddent hefyd yn cytuno bod yr amgylchedd yn golygu bod modd rheoli heintiau yn effeithiol.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd y systemau rheoli meddyginiaethau yn helpu i ddarparu gofal i'r cleifion mewn ffordd ddiogel. Roedd polisïau cynhwysfawr ar waith a oedd wedi bod yn destun proses rheoli fersiynau ac roeddent yn llywio'r staff ac yn eu helpu i reoli meddyginiaethau'n ddiogel.

Roedd y polisi rheoli meddyginiaethau yn amlinellu'r prosesau ar gyfer presgripsiynu, cyflenwi, rhoi, storio a gwaredu meddyginiaethau, gyda'r nod o ddiogelu'r cleifion,

ymwelwyr a'r staff. Roedd y polisi hefyd yn sefydlu rheolaethau ar gyfer caffael a chadw meddyginiaethau ac yn rhoi sicrwydd bod trefniadau llywodraethu priodol ar waith. Roedd meddyginiaethau'n cael eu caffael drwy gyflenwyr cymeradwy, gydag un brif ffynhonnell o feddyginiaethau'n ofynnol ar gyfer y stoc glinigol.

Roedd polisi arall ar gyffuriau a reolir ar gael ac roedd yn rhoi canllawiau clir ar gydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol, rhybuddion diogelwch cleifion a safonau arferion gorau. Roedd y polisi'n amlinellu gweithdrefnau ar gyfer storio a rheoli cyffuriau a reolir a'u cadw'n ddiogel.

Roedd meddyginiaethau yr oedd angen eu cadw'n oer yn cael eu cadw mewn oergelloedd fferyllol a oedd yn cynnwys dyfeisiau monitro uchafswm ac isafswm tymheredd, arddangosiadau allanol a larymau clywadwy. Roedd y trefniadau hyn yn helpu i sicrhau bod meddyginiaethau sy'n sensitif i dymheredd yn cael eu storio'n ddiogel. Roedd y cofnodion a welwyd yn dangos bod meddyginiaethau'n cael eu storio'n ddiogel ac yn cael eu monitro'n briodol.

Roedd systemau priodol ar waith er mwyn helpu i bresgripsiynu a rhoi meddyginiaethau'n ddiogel. Roedd cofnodion cywir o feddyginiaethau a roddwyd yn cael eu cadw, ac roedd dogfennau'n cael eu cwblhau i gofnodi meddyginiaethau sydd wedi'u presgripsiynu a'u rhoi, gan gynnwys llofnodion a dyddiadau lle bo angen. Roedd modd i'r staff gael canllawiau a chyngor ar reoli meddyginiaethau a oedd yn berthnasol i'w rolau. Roedd cyffuriau a chyfarpar brys ar gael a gwelwyd bod y trefniadau cyffredinol ar gyfer rhoi, storio a rheoli meddyginiaethau'n foddhaol.

Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed

Roedd gan y gwasanaeth drefniadau da ar waith i ddiogelu cleifion rhag camdriniaeth a sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol. Roedd polisïau diogelu oedolion a phlant cyfredol ar waith a oedd wedi bod yn destun proses rheoli fersiynau ac roeddent yn cyd-fynd â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, canllawiau Llywodraeth Cymru a Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Roedd y polisïau'n amlinellu ymrwymiad y sefydliad i atal camdriniaeth ac esgeulustod, amddiffyn unigolion sydd ag anghenion gofal a chymorth, yn ogystal â hyrwyddo eu hawliau, eu dewisiadau a'u llesiant.

Roedd arweinydd diogelu dynodedig, sef Cyfarwyddwr Llywodraethu'r Care Fertility Group, wedi cael ei benodi. Roedd yn goruchwylio trefniadau diogelu, yn rhoi cyngor, yn

cydweithio ag asiantaethau statudol ac yn sicrhau bod pryderon yn cael eu huwchgyfeirio'n briodol. Disgrifiodd y staff weithdrefnau clir ar gyfer ymateb i bryderon diogelu, gan gynnwys rhoi gwybod i reolwyr, gofyn am gyngor gan yr arweinydd diogelu, cofnodi digwyddiadau ar Datix a gwneud atgyfeiriadau at yr awdurdod lleol pan fo angen. Roedd canllawiau diogelu a gwybodaeth am roi gwybod am bryderon ar gael yn hawdd yn y clinig.

Roedd y cofnodion hyfforddiant yn cadarnhau bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu hyd at y lefel ofynnol, gyda'r staff clinigol yn cwblhau hyfforddiant Lefel 2 a'r staff anghlinigol yn cwblhau hyfforddiant Lefel 1. Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau diogelu na honiadau o gam-drin wedi cael eu cofnodi yn ystod y cyfnod dan sylw.

Gallai plant ddod gyda'u rhieni i'r clinig ac roedd ardal bwrpasol ar gael i blant. Eu rhieni neu warcheidwaid oedd yn gyfrifol am eu goruchwylio drwy gydol eu hymweliad.

Roedd Polisi Rhyddid i Godi Llais (Chwythu'r chwiban) cyfredol ar gael i'r staff, a oedd yn helpu cyflogeion a gweithwyr eraill i godi pryderon am ddiogelwch cleifion, ymarfer proffesiynol, llywodraethu, cydymffurfiaeth reoleiddiol a llesiant staff. Roedd y polisi'n cynnwys canllawiau clir ar roi gwybod am bryderon, cyfrinachedd a mesurau amddiffyn cyfreithiol.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Roedd cyfarpar addas a digonol ar gael a oedd yn ddiogel i'w ddefnyddio. Roedd gan y gwasanaeth y cyfarpar cywir i ddiwallu anghenion y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac roedd y cyfarpar hwn yn briodol i'w ddefnydd bwriadedig a'r amgylchedd lle roedd yn cael ei ddefnyddio.

Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer gwasanaethu, cynnal a chadw a chalibradu'r cyfarpar.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd y cleifion a oedd yn cael triniaeth ffrwythlondeb yn cael gofal diogel ac effeithiol o ansawdd uchel. Roedd trwydded ddilys gan yr Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol wedi'i harddangos, a oedd yn rhoi sicrwydd bod y triniaethau'n cael eu cynnal yn unol â gofynion rheoleiddiol. Roedd y cleifion yn cael eu cyfeirio at God Ymarfer yr

Awdurdod drwy'r dogfennau cydsynio a'r dogfennau gwybodaeth i gleifion. Roeddent yn cael digon o wybodaeth am opsiynau triniaeth i'w galluogi i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth.

Roedd gwybodaeth glir yn cael ei rhoi am gostau triniaethau, gan gynnwys amcangyfrifon cost personol cyn i'r driniaeth ddechrau. Roedd y gwasanaeth yn darparu cyfleusterau storio embryonau a gametau hefyd, ac roedd y cleifion yn cael gwybodaeth am y costau storio a'r trefniadau ar gyfer trin, defnyddio a gwaredu embryonau a gametau. Roedd y cyfleusterau storio'n cael eu cynnal a'u cadw'n briodol a'u cefnogi gan brosesau labordy da. Roedd gwybodaeth ar gael drwy'r ap i gleifion, a oedd yn cefnogi cyfathrebu drwy gydol y driniaeth.

Roedd gan y gwasanaeth brosesau sefydledig ar gyfer adolygu, cymeradwyo a gweithredu canllawiau clinigol newydd neu ddiwygiedig. Roedd y staff yn cael gwybod am ddiweddariadau a newidiadau i bolisïau drwy brosesau cyfathrebu clir. Roedd y clinig yn derbyn bwletinau a rhybuddion diogelwch cenedlaethol ac yn gweithredu arnynt yn lleol, gyda goruchwyliaeth gan strwythurau llywodraethu corfforaethol. Roedd tystiolaeth ar gael i ddangos bod y staff yn ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus priodol a bod gwersi a ddysgwyd o archwiliadau a phryderon yn cael eu rhoi ar waith. Yn ogystal â hyfforddiant blynyddol gorfodol, clywsom fod cymwyseddau'r staff yn cael eu harchwilio'n rheolaidd.

Roedd cleifion a oedd yn cael triniaethau llawfeddygol yn cael gofal gan staff profiadol a medrus sy'n meddu ar gymwysterau addas. Roedd gwybodaeth gynhwysfawr am driniaethau, risgiau a chanlyniadau disgwyliedig yn cael ei darparu ymlaen llaw. Roedd cymorth priodol ar gael i gleifion cyn iddynt gael triniaeth, yn ystod triniaethau, drwy gydol y cyfnod adfer ac ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

Er nad oedd y clinig yn darparu gofal cynenedigol ar ôl cadarnhau beichiogrwydd, roedd prosesau cymorth effeithiol ar waith ar gyfer cleifion a oedd yn cael triniaeth ffrwythlondeb. Roedd y gofal yn cael ei ddarparu mewn ffordd a oedd yn diwallu anghenion unigol ac yn hyrwyddo canlyniadau diogel a oedd yn canolbwyntio ar y claf drwy gydol y driniaeth. Roedd y prosesau gofal wedi hen sefydlu ac roedd y cleifion yn deall sut i gysylltu â'r staff y tu allan i oriau.

Yn yr holiadur staff, roedd y staff yn fodlon ar y cyfan ar ymdrechion y sefydliad i'w cadw nhw a'r cleifion yn ddiogel. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr i'r holiadur staff

heblaw un y byddent yn fodlon ar ansawdd y gofal a ddarperir gan y sefydliad iddynt hwy eu hunain, eu ffrindiau neu deulu. Roedd ychydig llai ohonynt, pedwar allan o chwech aelod o'r staff, yn cytuno mai gofal cleifion a defnyddwyr gwasanaeth oedd prif flaenoriaeth y sefydliad ac y byddent yn argymell eu sefydliad fel lle da i weithio ynddo.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd gan y gwasanaeth brosesau effeithiol ar gyfer monitro, asesu a gwella ansawdd y gofal a'r driniaeth a ddarperir. Roedd gweithgareddau gwella ansawdd yn cael eu cydlynu gan y rheolwr ansawdd a'r gweinyddydd, a oedd yn rheoli amserlen archwilio gynhwysfawr a oedd wedi'i chymeradwyo gan yr Unigolyn Cyfrifol. Roedd canlyniadau archwiliadau, digwyddiadau, cwynion a chamau gwella'n cael eu cofnodi drwy systemau llywodraethu gan gynnwys DATIX, gan sicrhau bod pryderon yn cael eu holrhain, eu hadolygu a'u trin yn briodol. Roedd adborth a chwynion gan gleifion yn cael eu cynnwys yn y fframwaith sicrhau ansawdd hefyd er mwyn helpu i ddatblygu'r gwasanaeth yn barhaus.

Roedd amrywiaeth o fentrau gwella ansawdd wedi cael eu rhoi ar waith yn ystod y cyfnod adrodd. Un enghraifft oedd menter i gyflwyno model llwybr claf wedi'i bersonoli, a oedd yn dyrannu cyfrifoldeb clir am feysydd gofal penodol i aelodau unigol o'r staff. Roedd hyn yn lleihau dyblygu, yn gwella atebolrwydd ac yn gwella taith y claf. Roedd y gwasanaeth hefyd wedi cyflwyno rhaglen faeth er mwyn lleihau BMI cleifion a galluogi mwy o unigolion i fodloni'r gofynion cymhwystra ar gyfer triniaeth a gwella mynediad at ofal.

Roedd ymgysylltiad a llesiant y staff yn ffocws pwysig o hyd. Roedd y gwasanaeth wedi cydweithio â'r staff i gyflwyno menter cyflogai'r mis, er mwyn annog cydnabyddiaeth o arfer da a hyrwyddo diwylliant cadarnhaol yn y gweithle. Yn ogystal, roedd yr uwch-dîm rheoli yn cynnal cyfarfodydd wythnosol er mwyn helpu i nodi unrhyw faterion a oedd yn dod i'r amlwg ac ymdrin â nhw mewn ffordd ragweithiol ar draws adrannau, gan gefnogi penderfyniadau amserol a gwelliant parhaus.

Gwelsom dystiolaeth bod adolygiadau o weithrediad yn cael eu cynnal bob chwe mis yn unol â'r rheoliadau perthnasol. Roedd cyfarfodydd ansawdd a llywodraethu yn bwydo i mewn i strwythurau llywodraethu corfforaethol ehangach. Roedd y trefniadau hyn yn sicrhau bod perfformiad yn cael ei oruchwylio'n rheolaidd ac yn helpu i sicrhau bod gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu â holl safleoedd Care Fertility. Roedd data ar weithgarwch clinigol yn cael eu cofnodi'n ddiogel ar systemau electronig ac yn cael eu defnyddio i fonitro perfformiad a chanlyniadau. Gwelwyd tystiolaeth o weithgarwch

archwilio clinigol parhaus, gan gynnwys archwiliad o feddyginiaethau a oedd ar waith ar adeg yr arolygiad.

Technoleg rheoli gwybodaeth a chyfathrebu

Roedd trefniadau effeithiol ar waith i reoli data a gwybodaeth am y cleifion yn ddiogel. Roedd polisi gwybodaeth cynhwysfawr ar waith, a oedd yn amlinellu sut roedd gwybodaeth yn cael ei darparu i'r cleifion yn unol â Chod Ymarfer yr Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol. Roedd y polisi'n sicrhau bod y cleifion yn cael y wybodaeth sydd ei hangen i ddarparu cydsyniad ar sail gwybodaeth a gwneud penderfyniadau gwybodus am opsiynau triniaeth ac unrhyw driniaethau ychwanegol a gynigir.

Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu rheoli'n electronig yn bennaf, gyda dogfennau papur yn cael eu sganio, eu lanlwytho i systemau diogel a'u dinistrio wedi hynny. Roedd y gwasanaeth yn defnyddio'r system cofnodion electronig, a oedd wedi'i diogelu â chyfrinair ac yn gweithredu gyda rheolaethau mynediad ar sail rolau i gyfyngu gwybodaeth yn unol â chyfrifoldebau'r staff. Roedd mynediad diogel ar gael ar y safle ac o bell drwy ddyfeisiau bwrdd gwaith a gliniaduron awdurdodedig.

Roedd cofnodion yn cael eu cadw'n unol â gofynion rheoleiddiol, gyda chofnodion ynghylch triniaethau ffrwythlondeb yn cael eu cadw am hyd at 30 mlynedd yn unol â rheoliadau'r Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol. Roedd trefniadau llywodraethu gwybodaeth yn cael eu goruchwylio gan y Swyddog Diogelu Data a Chontractau, a oedd yn monitro cydymffurfiaeth â chyfnodau cadw a gofynion o ran cydsyniad. Os oedd cydsyniad mewn perthynas ag embryonau, wyau neu sberm a oedd yn cael eu storio ar fin dod i ben, roedd y gwasanaeth yn cysylltu â'r cleifion ymlaen llaw ac yn rhoi gwybod iddynt am y terfynau amser perthnasol.

Roedd systemau cofnodion cleifion electronig diogel ar waith, gyda gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio ar weinyddion preifat yn unol â gofynion diogelu data. Roedd system rheoli cofnodion electronig effeithiol ar waith hefyd, a oedd yn darparu storfa ddiogel, ffordd effeithlon o gael gafael ar wybodaeth a threfniadau llywodraethu priodol.

Roedd ymgyngoriadau o bell yn cael eu cynnig lle y bo'n briodol ac roeddent yn seiliedig i raddau helaeth ar ddewis y claf mewn perthynas â thrafodaethau â chlinigwyr. Roedd archwiliadau a thriniaethau diagnostig yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb o hyd. Roedd ymgyngoriadau'n cael eu cynnal mewn ystafelloedd preifat gan ddefnyddio systemau

diogel, ac roedd y cleifion yn cael crynodebau o ymgyngoriadau. Nid oedd recordiadau'n cael eu storio, a oedd yn cefnogi cyfrinachedd a diogelwch data ymhellach.

Rheoli cofnodion

O ran y tri chofnod claf a welsom, roeddent yn cael eu cynnal a'u rheoli'n effeithiol ac roeddent o ansawdd da. Roedd y cofnodion cleifion a welsom yn glir, yn gywir, yn ddarllenadwy ac yn drefnus, a oedd yn golygu eu bod yn hawdd eu dilyn ac yn rhoi cofnod cynhwysfawr o'r gofal a'r driniaeth a ddarparwyd. Roedd y cofnodion yn cynnwys canfyddiadau clinigol perthnasol, penderfyniadau am driniaethau, camau gweithredu y cytunwyd arnynt a'r unigolyn sy'n gyfrifol am wneud a chofnodi'r penderfyniadau hynny. Roedd y cofnodion yn cynnwys manylion yr ymarferydd a oedd yn gwneud y cofnod, dyddiad y cyswllt neu'r driniaeth a thystiolaeth bod y cofnodion yn cael eu cwblhau ar y pryd.

Roedd dogfennau'n dangos bod cydsyniad dilys wedi cael ei roi lle bo angen, a bod materion ynghylch galluedd wedi cael eu hystyried lle bo hynny'n berthnasol. Roedd y cofnodion meddygol yn cynnwys gwybodaeth allweddol am y cleifion, gan gynnwys unrhyw gyflyrau meddygol arwyddocaol roeddent wedi'u cael yn y gorffennol ac unrhyw gyflyrau sydd ganddynt ar hyn o bryd, meddyginiaethau cyfredol, alergeddau ac adweithiau niweidiol, gan sicrhau bod gan y clinigwyr y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i roi gofal diogel ac effeithiol.

Roedd pob un o'r cleifion yn yr holiadur yn cytuno'n gryf eu bod wedi llenwi ffurflen hanes meddygol a bod eu hanes meddygol wedi cael ei wirio cyn iddynt gael triniaeth a'u bod wedi llofnodi ffurflen gydsynio cyn cael triniaeth newydd.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan Staff –

Rhannodd AGIC holiadur ar-lein er mwyn cael barn y staff am y gwasanaethau a ddarperir gan y lleoliad a'u profiad o weithio yno. Cawsom chwech ymateb gan aelodau o'r staff, ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn gadarnhaol. Ar y cyfan, dywedodd y staff i gyd eu bod yn fodlon ar ymdrechion y sefydliad i'w cadw nhw a'r cleifion yn ddiogel. Nododd y staff:

> *"Mae'r timau ym mhob adran yn cydweithio'n dda, gan greu amgylchedd cefnogol a chydweithredol. Mae'r awyrgylch yn gyfeillgar ac rwy'n teimlo'n gyfforddus yn gofyn i unrhyw un am help neu gyngor pan fo angen. Mae ymdeimlad cryf o waith tîm, sy'n ei wneud yn lle da i weithio. Rwy' wir yn mwynhau gweithio yma ac yn gwerthfawrogi'r diwylliant cadarnhaol a'r cymorth gan gydweithwyr. Y cleifion sy'n dod gyntaf bob amser ac mae'n amlwg bod pawb yn canolbwyntio ar ddarparu'r gofal gorau posibl."*

> *"Angen ystyried y cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith ar gyfer gwasanaethau cleifion fel sy'n digwydd gyda phob tîm arall."*

> *"Mae gwelliannau sylweddol wedi cael eu gwneud yn y clinig dros y chwe mis diwethaf. Mae hyn i'w weld yn amlwg ac yn adlewyrchu ar foddhad a diogelwch y cleifion."*

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd y prosesau a'r strwythurau llywodraethu'n gadarn. Roedd y gwasanaeth yn cael ei arwain a'i reoli'n dda, gyda llinellau atebolrwydd clir, trefniadau llywodraethu effeithiol a phrosesau gwneud penderfyniadau cadarn. Roedd datganiad o ddiben cyfredol ar waith ac ar gael i'r cleifion. Roedd y gwasanaeth yn gweithredu'n unol â'i ddatganiad o ddiben ac roedd yr amrywiaeth o driniaethau a gwasanaethau a ddarparwyd yn cyd-fynd â'r wybodaeth yn y datganiad.

Roedd canllaw cyfredol i gleifion ar gael hefyd, a oedd yn cynnwys y wybodaeth ofynnol, manylion am adroddiad arolygu diweddaraf AGIC a chanlyniadau adborth gan gleifion. Roedd gwybodaeth a chanllawiau ychwanegol ar gael drwy ddogfennau ategol, gan gynnwys gwybodaeth am driniaethau a pholisïau'n ymwneud ag eiddo ac eitemau personol cleifion.

Roedd gan y clinig strwythur sefydliadol clir, a oedd yn cael ei gefnogi gan siart sefydliadol a oedd yn dangos llinellau adrodd, cyfrifoldebau'r staff ac atebolrwydd rheolwyr. Roedd y staff yn ymwybodol o'u rolau ac yn deall i bwy roeddent yn adrodd yn y sefydliad. Roedd polisïau a gweithdrefnau'n cael eu hadolygu'n ffurfiol cyn eu rhoi ar waith, ac roedd arweinwyr dynodedig yn gyfrifol am sicrhau bod dogfennau'n gyfredol ac yn bodloni'r gofynion o hyd. Roedd pob un o'r polisïau a welwyd yn ystod yr arolygiad yn gyfredol.

Roedd y staff yn cael eu hysbysu am bolisïau newydd a diwygiedig drwy'r uwch-dîm rheoli, yr ardal a rennir ar y fewnrwyd, systemau hysbysiadau darllen a threfniadau rheoli llinell. Roedd hyb gwybodaeth ar y fewnrwyd yn cynnwys polisïau, deunyddiau hyfforddi a dogfennau safonedig i'r staff. Roedd y rheolwyr yn goruchwylio cymwyseddau'r aelodau hynny o staff yn y meysydd roeddent yn gyfrifol amdanynt.

Roedd systemau effeithiol ar waith i rannu gwybodaeth am ddiogelwch a gweithredu arni. Roedd rhybuddion diogelwch gan sefydliadau gan gynnwys yr Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol, yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd a Llywodraeth Cymru yn cael eu rhannu drwy rybuddion diogelwch ar DATIX a thrwy e-bost i bob aelod o'r staff. Roedd manylion cofrestru AGIC yn gywir, roedd yr amodau cofrestru'n cael eu bodloni ac roedd tystysgrifau yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ac atebolrwydd cyflogwr cyfredol ar gael. Fodd bynnag, dim ond y fersiynau Saesneg o dystysgrifau AGIC oedd wedi'u harddangos.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob fersiwn o dystysgrifau AGIC yn cael ei harddangos mewn man amlwg yn y clinig.

Dywedodd pob aelod o'r staff a atebodd yr holiadur eu bod yn cytuno y gallent ddibynnu ar eu rheolwr uniongyrchol i'w helpu gyda thasgau anodd yn y gwaith, ei fod yn rhoi adborth clir a'i fod yn gofyn am eu barn cyn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu gwaith.

Dywedodd pob aelod o'r staff fod yr uwch-reolwyr yn weladwy. Roedd pob aelod o'r staff a atebodd yr holiadur heblaw un yn cytuno bod y cyfathrebu rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff yn effeithiol a bod yr uwch-reolwyr yn ymrwymedig i ofal cleifion.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd tystiolaeth i'w gweld o brosesau ar gyfer rheoli pryderon a chwynion gan gleifion ac roeddent yn dangos ymrwymiad i ymateb i adborth mewn ffordd amserol, agored a chefnogol. Roedd y cleifion yn cael gwybod sut i godi pryderon drwy boster cwynion a oedd wedi'i arddangos yn y clinig a thrwy wybodaeth electronig a oedd ar gael drwy'r ap i gleifion. Roedd y wybodaeth yn esbonio y gallai pryderon neu gwynion gael eu codi'n bersonol, drwy e-bost neu'n ysgrifenedig yn uniongyrchol i'r clinig, gan sicrhau bod llwybrau hygyrch ar gael i'r cleifion roi adborth.

Roedd y weithdrefn gwyno'n pwysleisio bod profiad a llesiant y claf yn ganolog i'r gwasanaethau a ddarperir. Roedd y cleifion yn cael eu hannog i godi pryderon fel y gellid mynd i'r afael â materion yn gyflym a dysgu gwersi ohonynt. Roedd gwybodaeth am sefydliadau allanol, gan gynnwys yr Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol ac AGIC, ar gael hefyd, a oedd yn galluogi'r cleifion i gael rhagor o gyngor neu uwchgyfeirio materion lle bo hynny'n briodol.

Roedd polisi cwyno cyfredol ar waith a oedd yn amlinellu amserlenni clir a chyfrifoldebau am ymdrin â chwynion. Roedd cwynion yn cael eu cydnabod o fewn tri diwrnod gwaith ac roedd uwch-aelod priodol o'r staff yn ymchwilio iddynt, fel arfer o dan gyfarwyddyd y Cyfarwyddwr Clinigol. Roedd yr ymchwiliadau'n gymesur â natur a chymhlethdod y pryder, ac roedd ymateb llawn yn cael ei ddarparu o fewn 20 diwrnod gwaith fel arfer. Os oedd angen amser ychwanegol ar gyfer ymchwiliadau, roedd yr achwynwyr yn cael eu hysbysu am hynt eu cwyn a dyddiadau ymateb disgwyliedig. Roedd cwynion yn cael eu rheoli'n gyfrinachol, ac ni fyddai gwybodaeth yn cael ei rhannu â neb heblaw'r unigolion hynny yr oedd angen y wybodaeth arnynt fel rhan o'r broses ymchwilio.

Yn ystod y chwe mis rhwng mis Ionawr a mis Mehefin 2026, roedd y gwasanaeth wedi cael 17 o gwynion, ac roedd pedair ohonynt ar agor o hyd ar adeg yr asesiad. Roedd y prif themâu'n ymwneud â chyfathrebu, cysondeb y wybodaeth a roddir i'r cleifion, rheoli disgwyliadau a chydlynu taith y claf. Roedd tueddiadau o ran cwynion wedi cael eu hadolygu a'u defnyddio i nodi cyfleoedd i wella. Roedd camau'n cael eu cymryd i gryfhau prosesau cyfathrebu, gwella parhad gofal a sicrhau bod disgwyliadau'n cael eu trafod yn glir drwy gydol y driniaeth. Roedd y broses adborth ar ôl digwyddiadau a chwynion yn cynnwys rhannu gwersi a ddysgwyd mewn ffordd strwythuredig â chyfleusterau eraill sy'n rhan o'r Care Fertility Group fel y bo'n briodol.

Roedd y gwasanaeth wedi derbyn canmoliaeth hefyd, a oedd yn aml yn cydnabod

proffesiynoldeb, tosturi a chymorth y staff, ac roedd hyn yn rhoi sicrwydd ynghylch ansawdd cyffredinol gofal cleifion. Roedd gwersi a ddysgwyd o gwynion a phryderon yn cael eu rhannu â'r staff drwy gyfarfodydd a system lywodraethu DATIX er mwyn helpu i wella gwasanaethau a lleihau'r tebygolrwydd y bydd materion tebyg yn codi eto yn y dyfodol. Roedd y staff a oedd yn rhan o ymchwiliadau i gwynion yn cael cymorth lle bo angen, ac roedd cofnodion cywir o gwynion, ymchwiliadau, canlyniadau a chamau gweithredu dilynol yn cael eu cadw.

Roedd cofnodlyfr Dadansoddi Digwyddiadau o Bwys yn cael ei gadw. Nid oedd gan y gwasanaeth gofrestr bwrpasol o ddigwyddiadau adroddadwy a allai gyfyngu ar y gallu i oruchwylio digwyddiadau y mae angen hysbysu AGIC yn eu cylch.

Yn yr holiaduron i'r staff, cadarnhaodd pob un o'r ymatebwyr fod y sefydliad yn casglu adborth am brofiadau'r cleifion. Yn yr un modd, dywedodd pob un o'r ymatebwyr eu bod yn cael diweddariadau rheolaidd ar adborth am brofiadau'r cleifion yn y sefydliad. Er bod 67% o'r ymatebwyr yn teimlo bod adborth gan gleifion yn cael ei ddefnyddio er mwyn helpu i wneud penderfyniadau, roedd y 33% arall yn ansicr.

O ran iechyd a llesiant yn y gwaith, roedd 67% yn cytuno nad yw eu gwaith yn andwyol i'w hiechyd, ond roedd 33.33% yn anghytuno. Roedd canran uchel, 83%, yn cytuno bod y sefydliad yn cymryd camau cadarnhaol o ran iechyd a llesiant. Roedd hanner yr ymatebwyr o'r farn bod eu patrwm gwaith presennol yn rhoi cydbwysedd da iddynt rhwng bywyd a gwaith. Fodd bynnag, roedd pob un o'r ymatebwyr yn ymwybodol o'r cymorth iechyd galwedigaethol a oedd ar gael iddynt. Clywsom hefyd fod cymorth iechyd galwedigaethol a llesiant staff ar gael drwy raglenni cymorth i gyflogeion, adnoddau llesiant a mynediad at gyngor a hyfforddiant ym maes iechyd.

O safbwynt rhoi gwybod am ddigwyddiadau a phryderon, roedd pob un o'r ymatebwyr yn cytuno'n gryf fod eu sefydliad yn eu hannog i roi gwybod am wallau, camgymeriadau a fu bron â digwydd a digwyddiadau. Roedd 67% yn teimlo bod y staff a oedd yn rhan o wallau, camgymeriadau a fu bron â digwydd a digwyddiadau yn cael eu trin yn deg a gwnaethant ddweud eu bod wedi cael adborth am newidiadau a wnaed mewn ymateb i wallau, camgymeriadau a fu bron â digwydd a digwyddiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr, 83%, yn teimlo bod camau'n cael eu cymryd yn dilyn gwallau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau er mwyn eu hatal rhag digwydd eto.

Atebodd y staff gwestiynau yn yr holiadur am godi pryderon am arferion clinigol anniogel. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr y byddent yn gwybod sut i roi gwybod am bryderon am arferion clinigol anniogel. Er bod 67% wedi dweud y byddent yn teimlo'n ddiogel wrth godi pryderon am arferion clinigol anniogel, roedd 33% yn ansicr. Yn yr un modd, dim ond hanner yr ymatebwyr oedd yn hyderus y byddai'r sefydliad yn mynd i'r afael â'u pryderon am arferion clinigol anniogel, roedd y 50% arall yn ansicr.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Roedd gan ddarparwr y gwasanaeth drefniadau recriwtio, rheoli'r gweithlu a chefnogi staff effeithiol ar waith i ddiogelu iechyd, diogelwch a lles y cleifion. Roedd prosesau recriwtio'n cael eu rheoli'n ganolog drwy'r adran adnoddau dynol a'u cefnogi gan bolisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr a luniwyd i sicrhau mai dim ond unigolion addas oedd yn cael eu cyflogi.

Roedd gwiriadau cyn cyflogi'n cael eu cwblhau cyn i staff ddechrau gweithio, gan gynnwys gwiriadau ar y lefel briodol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Roedd y mesurau hyn yn helpu i sicrhau bod y staff yn gymwysedig, yn brofiadol ac yn addas i weithio yn y gwasanaeth.

Roedd systemau ar waith i fonitro bod cyflogeion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn parhau i fod yn addas i weithio yn y gwasanaeth. Roedd cofrestriadau proffesiynol yn cael eu monitro'n ganolog, ac roedd negeseuon atgoffa yn cael eu hanfon at y staff ac aelodau o'r uwch-dîm rheoli pan roedd cofrestriadau neu gymwysterau gofynnol eraill ar fin dod i ben. Roedd hyn yn rhoi sicrwydd bod ymarferwyr wedi'u cofrestru a'u hawdurdodi'n briodol o hyd i gyflawni eu dyletswyddau. Roedd cymhwysedd a galluoedd y staff yn cael eu cefnogi drwy brosesau cynefino strwythuredig, hyfforddiant gorfodol a threfniadau goruchwylio parhaus.

Roedd gan y gwasanaeth bolisïau recriwtio a chyflogaeth cyfredol, gan gynnwys y polisi recriwtio a dethol a llawlyfr y staff. Roedd y dogfennau hyn yn amlinellu disgwyliadau'r sefydliad o ran recriwtio, ymddygiad, rheoli perfformiad a chyfrifoldebau proffesiynol. Roedd llawlyfr y staff yn cynnwys gofynion i staff ddatgelu gwybodaeth am ymchwiliadau troseddol, euogfarnau neu rybuddion ac yn nodi sut y byddai materion o'r fath yn cael eu hasesu mewn perthynas â'u cyflogaeth. Roedd gweithdrefnau disgyblu clir ar waith hefyd lle roedd pryderon yn codi am addasrwydd i weithio.

Roedd y sefydliad yn hyrwyddo datblygiad staff drwy broses adolygu perfformiad a

datblygiad ffurfiol. Roedd cyflogeion newydd yn cael adolygiadau o berfformiad tua 10 wythnos a chwe mis ar ôl iddynt ddechrau gweithio ac yn flynyddol wedi hynny. Roedd y trefniadau hyn yn cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus ac yn galluogi'r rheolwyr i nodi anghenion hyfforddi a datblygu.

Roedd ystod eang o adnoddau ar gael i gefnogi llesiant ac ymgysylltiad y staff. Roedd y rhain yn cynnwys Rhaglen Cymorth i Gyflogeion, a oedd yn darparu cymorth cyfrinachol 24 awr y dydd, cyngor arbenigol a hyd at chwe sesiwn gwnsela. Roedd adnoddau ychwanegol ar gael drwy systemau corfforaethol, gan gynnwys adnoddau dysgu a datblygu, polisïau, ffurflenni a chanllawiau cyflogaeth.

O safbwynt y sefydliad, dywedodd 67% o'r staff a atebodd yr holiadur fod y sefydliad yn gefnogol a'i fod yn cymryd camau cyflym i wella pan fo angen. Dim ond hanner y staff a ddywedodd fod y sefydliad yn cefnogi staff i nodi a datrys problemau.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Roedd trefniadau effeithiol ar waith i sicrhau bod digon o staff cymwysedig, profiadol a chymwys ar gael i ddarparu gofal a thriniaeth diogel. Roedd trefniadau cynllunio'r gweithlu yn cael eu cefnogi gan system trefnu apwyntiadau a oedd ond yn dyrannu apwyntiadau pan roedd yr aelod gofynnol o'r staff ar gael, gan helpu i sicrhau bod lefelau staffio diogel yn cael eu cynnal. Roedd trefniadau wrth gefn ar waith hefyd i reoli absenoldebau staff, gwyliau blynyddol a salwch annisgwyl, ac roedd digon o staff ar gael i gyflenwi er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar ofal cleifion.

Roedd rhaglenni sefydlu ar gael i staff newydd ac fe'u lluniwyd i sicrhau eu bod yn meithrin y wybodaeth, y sgiliau a'r hyder sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu rolau'n ddiogel ac yn effeithiol. Roedd yn rhaid i staff newydd gwblhau modiwlau dysgu ar-lein a ffurflenni cadarnhau cymwyseddau cyn cyflawni dyletswyddau'n annibynnol.

Roedd uwch-aelodau o'r staff, gan gynnwys rheolwyr a nyrsys, yn treulio amser yn gweithio gyda chydweithwyr yng nghlinigau eraill Care Fertility i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ynghylch prosesau a safonau sefydliadol. Dywedodd y rheolwr cofrestredig fod rhwydweithiau cymorth helaeth yn bodoli yn y sefydliad, gan gynnwys timau arbenigol a grwpiau cymorth i reolwyr a oedd yn darparu cyngor, arweiniad a chymorth proffesiynol.

Roedd arfarniadau blynyddol yn cael eu cydlynu drwy'r tîm pobl canolog ac yn cael eu cwblhau'n lleol gan reolwyr llinell. Roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio'n llawn â'r broses arfarnu, gan roi sicrwydd bod perfformiad staff, anghenion ac amcanion datblygu'n cael eu hadolygu a'u monitro'n ffurfiol. Fodd bynnag, dywedodd dau o'r chwech aelod o staff a atebodd yr holiadur nad oeddent wedi cael arfarniad blynyddol yn ddiweddar.

Roedd diwylliant cryf o gyfathrebu ac ymgysylltu i'w weld. Roedd yr uwch-dîm rheoli'n cynnal cyfarfodydd wythnosol gydag agendâu, trafodaethau a chynlluniau gweithredu wedi'u dogfennu. Roedd cyfarfodydd clinig llawn wedi cael eu cyflwyno i wella cydweithio a chyfathrebu rhwng adrannau, gan gydnabod profiad y cleifion o'r gwasanaeth fel un clinig integredig. Roedd cyfarfodydd adrannol, fel y rhai a gynhelir o fewn yr adran gwasanaethau cleifion, yn ymdrin â materion gweithredol, safonau gwasanaeth, gofynion hyfforddiant a materion yn ymwneud â'r gweithlu. Roedd camau gweithredu a oedd yn deillio o gyfarfodydd yn cael eu monitro a'u holrhain i sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud.

Roedd y staff yn cael eu cefnogi i gynnal a datblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau. Roedd arweinydd dysgu a datblygu dynodedig yn cydlynu cyfleoedd hyfforddiant ac roedd y staff yn cael eu hannog i astudio am gymwysterau ychwanegol a chael hyfforddiant arbenigol. Roedd enghreifftiau'n cynnwys hyfforddiant ar sganio uwchsain, datblygu arweinwyr tawelyddu, cymwysterau i nyrsys sy'n presgripsiynu a rhaglenni arwain a rheoli lefel 5. Roedd cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol yn cael ei monitro'n agos drwy brosesau llywodraethu gan y tîm dysgu a datblygu, rheolwyr llinell a'r uwch-dîm rheoli.

Roedd y staff yn cael eu cefnogi hefyd i godi pryderon drwy drefniadau chwythu'r chwiban a diwylliant drws agored. Roedd polisi chwythu'r chwiban cyfredol ar waith, a oedd yn sicrhau bod y staff yn deall sut i roi gwybod am bryderon a cheisio cymorth pan fo angen.

Dangosodd hapsampl o gofnodion hyfforddiant gorfodol tri aelod o'r staff eu bod yn cydymffurfio'n llawn â hyfforddiant gorfodol gan gynnwys hyfforddiant ocsigen a chynnal bywyd sylfaenol. Yn ogystal, roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar atal radicaleiddio, ymwybyddiaeth o glefyd y llengfilwyr, cydsyniad, rhianta cyfreithiol, sefydlu, seiberddiogelwch a diogelu data, ymwybyddiaeth o aflonyddu rhywiol a hyfforddiant ar anableddau dysgu ac awtistiaeth.

O safbwynt y cwestiynau ar ddatblygiad proffesiynol yn yr holiadur i staff, dywedodd pedwar o'r chwech aelod o staff eu bod wedi cael hyfforddiant priodol i gyflawni eu rôl. Dywedodd y staff mai'r hyfforddiant arall a fyddai'n ddefnyddiol iddynt, yn eu barn nhw, oedd:

> “Canllaw cam wrth gam ar gyfer llwybrau, prosesau gan fod pob llwybr yn wahanol. Byddai rhestr o'r profion gwaed ar gyfer pob triniaeth sydd ei hangen yn ddefnyddiol.”
>
> “Hyfforddiant rheoli.”

Yn y rhan o'r holiadur a oedd yn ymwneud â gofal cleifion, dywedodd pob un o'r staff eu bod yn gallu bodloni’r holl alwadau sy'n gwrthdaro yn ystod eu hamser yn y gwaith ac yn gallu cael mynediad at systemau technoleg gwybodaeth er mwyn darparu gofal a chymorth da i gleifion. Er bod 83% o'r staff yn cytuno bod digon o ddeunyddiau, cyflenwadau a chyfarpar ar gael i wneud eu swydd, dim ond 17% oedd yn teimlo bod digon o staff yn gweithio yno i'w galluogi i wneud eu swydd yn iawn. Yn ogystal, dywedodd 67% o'r staff eu bod yn cael eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau am newidiadau sy'n effeithio ar eu maes gwaith.

Er bod sylwadau'r staff yn gadarnhaol ar y cyfan, dylai'r clinig fynd ati i ystyried pryderon y staff am lefelau staffio, y cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a hyder wrth godi ac uwchgyfeirio pryderon am arferion anniogel.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig hysbysu AGIC am y camau gweithredu y bydd yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r canrannau llai cadarnhaol yn yr adborth.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen ymdrin â'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: **Care Fertility, Caerdydd**

Dyddiad yr arolygiad: **21 Awst 2026**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Canfyddiadau			
Yr hyn sydd angen ei wella		**Safon / Rheoliad**	
1.	Ni nodwyd unrhyw faterion uniongyrchol yn ymwneud â diffyg cydymffurfio.		
Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth:		**Swyddog cyfrifol**	**Amserlen**

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Swydd: **Dyddiad:**

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: **Care Fertility, Caerdydd**

Dyddiad yr arolygiad: **21 Awst 2026**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

	Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Roedd manylion cofrestru AGIC yn gywir, roedd yr amodau cofrestru'n cael eu bodloni ac roedd tystysgrifau yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ac atebolrwydd cyflogwr cyfredol ar gael. Fodd bynnag, dim ond y fersiynau Saesneg o dystysgrifau AGIC oedd wedi'u harddangos.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob fersiwn o dystysgrifau AGIC yn cael ei harddangos mewn man amlwg yn y clinig.	Safonau Gofynnol Cenedlaethol – Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd. Deddf Safonau Gofal 2000.	Mae'r tystysgrifau AGIC cyfredol a arddangosir yn y clinig yn cynnwys manylion y Rheolwr Cofrestredig blaenorol. Mae Cyfarwyddwr y Clinig wedi cyflwyno cais i AGIC yn ddiweddar i gael ei ddynodi'n Rheolwr Cofrestredig ac mae'n aros i AGIC ddiweddaru'r tystysgrifau cofrestru. Ar ôl derbyn y tystysgrifau newydd, caiff y fersiynau	Michelle Mason, Cyfarwyddwr y Clinig	30/11/2026

				Cymraeg a Saesneg eu harddangos mewn man amlwg yn y clinig i fodloni gofynion AGIC. Caiff y tystysgrifau eu gwirio i sicrhau eu bod yn gyfredol a'u bod yn nodi'r rheolwr cofrestredig a'r manylion cofrestru cywir.		
2.	Er bod sylwadau'r staff yn gadarnhaol ar y cyfan, dylai'r clinig fynd ati i ystyried pryderon y staff am lefelau staffio, y cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a hyder wrth godi ac uwchgyfeirio pryderon am arferion anniogel.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig hysbysu AGIC am y camau gweithredu y bydd yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r canrannau llai cadarnhaol yn yr adborth.	Safonau Gofynnol Cenedlaethol – Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol. Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 20.	Adolygu a chryfhau prosesau i'r staff godi pryderon am lefelau staffio, y cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith ac arferion anniogel. Parhau i gynnal cyfarfodydd adrannol rheolaidd a chyfarfodydd clinig llawn ar gyfer y tîm amlddisgyblaethol bob chwarter, gan fonitro lefelau staffio yn erbyn gweithgarwch cleifion a model staffio'r clinig. Caiff staff eu hatgoffa o'r prosesau chwythu'r chwiban ac uwchgyfeirio, a chaiff unrhyw bryderon	Michelle Mason, Cyfarwyddwr y Clinig	18/12/2026

				a godir eu dogfennu, eu datrys a'u hadolygu.		

Rhaid i’r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Michelle Mason

Swydd: Cyfarwyddwr y Clinig **Dyddiad: 06/10/2026**